



# 2025-2026

## Adroddiad y Bwrdd Rheoli a Chyngor Celfyddydau Cymru #25

**Y cyfnod dan sylw: 1 Ebrill – 30 Mehefin 2025**

Llun: Y llyfrau Cymraeg a Saesneg ar restr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn, 2025

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Chipolygon**

Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Gweithredol 3

Uchafbwyntiau Gweithgaredd Chwarter 1 4

Uchafbwyntiau Gweithredol a Diweddariad Swyddfa a Staffio 5

Ein lle yn y sector 6

**Ein heffaith:**

Uchafbwynt wrth gyflawni ein blaenoriaethau: Diwylliant Llenyddol Cymru 7

**Cynnydd yn erbyn ein targedau**

Cynaladwyedd 8

Cyngor Celfyddydau Cymru 2025-26 10

**Gwersi i'w dysgu**

Gweithgaredd a Gweithredol 22

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido CCC** a'n **gofynion adrodd mewnol** sy'n manylu ar yr effaith y gobeithiwn ei chael, ynghyd â'n **Gwersi i'w Dysgu.**

Dim ond cipolwg o'r gwaith yr ydym yn ei gyflawni y mae targedau Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei gynnig. Mae gennym yn ogystal broses Monitro Effaith drylwyr sy'n dangos sut mae ein holl raglenni'n cyfrannu at ein 7 Nod. Ym mhob Adroddiad fel yr un yma, byddwn yn amlygu un nod ar gyfer y chwarter ac yn adrodd yn fanylach ar yr ystadegau a'r straeon yr ydym wedi'u casglu.

Ynghlwm wrth ein cynllun strategol mae llawer o gynlluniau gweithredol yn cynnwys Codi Arian, Adnoddau Dynol, Partneriaethau a Chymynroddion, Cynaladwyedd, Cyllid, EDI a Chyfathrebu. O fewn y rhain mae nodau SMART ar gyfer pob blwyddyn. Rydym yn mesur ein cynnydd yn erbyn y rhain yn chwarterol ac ym mhob Adroddiad Sefydliadol bydd trosolwg o'r cynnydd allweddol a wnaed / terfynau amser a gollwyd yn y chwarter.

# Diweddariad gan y Cyfarwyddwr Artistig a Gweithredol

Mai, fis difai, yn dyfod… Gyda dyfodiad blwyddyn ariannol newydd, daeth cyfle i ninnau yn Llenyddiaeth Cymru i gychwyn blwyddyn greadigol o raglenni o'r newydd hefyd. O'r 1af o Ebrill, rydym yn darparu llechen lân o ran taenlen datblygu rhaglenni ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, a chalendr i fapio ein blwyddyn waith ac i adnabod adegau prysur – cyfle i ni i gyd gynllunio a bod yn drefnus.

Gyda dyfodiad y tywydd braf byddwn yn agor drysau a ffenestri Tŷ Newydd led y pen i groesawu'r tymor newydd a gwesteion o bob cwr o'r byd. Eleni, ym mis Mai, daeth criw o 14 o awduron i'r ganolfan i breswylio am bythefnos – 5 bardd o Gymru a 9 awdur o wledydd amrywiol yn Ewrop i drafod ieithoedd lleiafrifol, byd natur a llenyddiaeth. Daeth y prosiect hyfryd hwn (sy'n cael ei grybwyll ar dudalen 8) o gyfnewid diwylliannol i ben gyda thrip i Ŵyl y Gelli lle bu cyfle i ddwyn holl bartneriaid y prosiect ynghyd i ddathlu. Bu cyfle yn y Gelli hefyd i fod yn bry ar y wal yn ystod rhai o sesiynau Awduron wrth eu Gwaith, rhaglen ddatblygu awduron yr ydym yn parhau i'w chefnogi yn flynyddol.

Awduron wrth eu Gwaith y Gelli yw un o nifer o garfannau o awduron fu'n cychwyn ar eu taith ddatblygu gyda ni y tymor hwn – braf hefyd yw cael cychwyn ein perthynas â charfannau Sgwennu'n Well, Pencerdd a Cynrychioli Cymru. Drwy'r rhaglenni hyn, byddwn yn cyrraedd ein targed Cyngor y Celfyddydau o leiaf 75 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron dwys yn ystod y flwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn llawn dop y chwarter hwn. Dilynwch ddolenni i'n gwefan, a cofiwch fod cynnwys creadigol ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i'w fwynhau – cipolwg ar yr hyn sy'n cael eu greu trwy ein gwaith.

**Leusa Llewelyn**, Cyfarwyddwr Artistig
**Claire Furlong**, Cyfarwyddwr Gweithredol



Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Gweithgareddau


- Arweiniodd Kerry Steed dair sesiwn ysgrifennu creadigol yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng llenyddiaeth a’r amgylchedd, fel rhan o gynllun Llên mewn Lle Sir Benfro.
- Fe wnaeth awduron Cynrychioli Cymru gwrdd am y tro cyntaf yn Nhŷ Newydd ar gyfer dosbarth meistr dwyieithog a edrychai ar sawl genre dan arweiniad Alys Conran a Hanan Issa.
- Cafodd pump o feirdd sy’n datblygu’u sgiliau cynganeddu drwy brosiect Pencerdd sesiynau yng nghwmni Tudur Dylan ac Aneirin Karadog.
- Fis ar ôl eu hwythnos breswyl yn Nhŷ Newydd i ddatblygu’u sgiliau perfformio barddoniaeth, cafodd awduron cynllun Speak Back gymorth 1:1 gan y tiwtoriaid Taylor Edmonds a Kandace Siobhan Walker.
- Mae hwyluswyr Sgwennu’n Well wedi bod yn canolbwyntio ar elfennau ymarferol cynnal prosiectau. Mae’r sesiynau wedi edrych ar ddiogelu, gwerthuso creadigol a chynllunio prosiectau.
- Arweiniodd y bardd a’r hwylusydd Leigh Manley ddwy sesiwn Sgwadiau Sgwennu ym Maesteg, gyda chymorth yr artistiaid Duke Al Durham a Rhiannon Oliver.
- Cyflwynodd yr holl feirdd eu gwaith creadigol i ddetholiad y prosiect Menywod Cronig, sy’n cael ei arwain gan Gwyneth Lewis a Hanan Issa, Bardd Cenedlaethol Cymru.
- Mwynhaodd 10 o ysgolion Wrecsam weithdai ysgrifennu creadigol gyda’r awduron Rhian Cadwaladr a Buddug Watcyn Roberts, a hynny fel rhan o’n gwaith allgymorth cyn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Dechreuodd 14 o awduron ar gynllun datblygu awduron dwys Cynrychioli Cymru, sy’n para blwyddyn.



Dechreuodd chwech o hwyluswyr llenyddol ar gyfnod datblygu 15 mis fel rhan o gynllun Sgwennu’n Well.




Cyhoeddwyd enwau’r 12 o lyfrau a oedd wedi cyrraedd Rhestr Fer Cymraeg Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2025.



Cychwynnodd Alex Wharton, y Children’s Laureate Wales, ar daith epig a fyddai’n golygu cerdded 40 milltir mewn 6 niwrnod. Bu hefyd yn gweithio gyda’r uned deuluol yng Ngharchar y Parc, gan helpu 16 o dadau.




Daliodd y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i gefnogi gweithgarwch llenyddol ledled Cymru, gan gynnwys lansiad *Cling Film* a *Beyond/ Tu Hwnt*. Cydnabyddiaeth y llun: Lucent Dreaming.



Croesawodd Tŷ Newydd nifer o awduron i amrywiaeth o gyrsiau. Yn eu plith roedd cwrs undydd yng nghwmni Fflur Dafydd ac wythnos o feithrin arferion barddonol cynaliadwy gyda Kim Moore a Roger Robinson.

# Uchafbwyntiau Gweithredol a Diweddariad Swyddfa a Staffio

- Yn y chwarter hwn, fe wnaethon ni gwblhau'r broses o recriwtio i'r swydd Cefnogaeth Creadigol, a chroesawyd Hazel Ravu i'r tîm.
- Rydyn ni hefyd wedi dechrau'r broses o recriwtio rhywun i lenwi swydd Rheolwr Tŷ Newydd.
- Yn ystod mis Mai, fe gynhalion ni gyfarfod cyntaf y bwrdd y flwyddyn hon yng Nghaerdydd. Cafodd yr Ymddiriedolwyr gyflwyniad creadigol am brosiect Cynrychioli Cymru. Roedden ni'n falch o groesawu Sioned Wiliam a Joanne Doyle fel Ymddiriedolwyr newydd, ac etholwyd Steve Dimmick yn Gadeirydd newydd. Rhoddodd Cathryn Charnell-White y gorau i fod yn Gadeirydd ond bydd yn parhau'n Ymddiriedolwr tan fis Tachwedd 2025.
- Yn ystod cyfarfodydd staff, mae'r staff yn dal i roi cyflwyniadau am effaith prosiectau. Yn y chwarter hwn, cafwyd cyflwyniadau am Pencerdd, y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, a Cynrychioli Cymru.
- Cwblhawyd a chyflwynwyd ein hymateb i arolwg Cyngor Celfyddydau Cymru o'r sefydliadau sy'n cael cyllid aml-flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys cyfrifo data am gynulleidfaoedd o'n holl brosiectau ym mlwyddyn ariannol 2024-25.
- Cymerodd yr holl staff ran mewn ymgyrch lanhau ddigidol ym mis Ebrill, gan ddileu unrhyw ddogfennau diangen neu gopïau dyblyg. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws dod o hyd i'r dogfennau sydd eu hangen arnon ni. Mae hefyd yn helpu i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'n cofrestr cadw data, ac yn lleihau ein hallyriadau wrth storio yn y cwmwl.
- Mae'r staff wedi cael hyfforddiant i ddefnyddio meddalwedd rheoli cysylltiadau cwsmeriaid newydd Beacon, ac i ddeall sut y bydd y feddalwedd yn cael ei defnyddio yng ngwaith amrywiol Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys wrth i bobl archebu lle ar gyrsiau Tŷ Newydd ac ym mhrosesau ymgeisio ein rhaglenni Datblygu Awduron.
- Cafodd nifer o aelodau'r staff eu 'penblwyddi gwaith' yn y chwarter hwn, o Nicola a ddathlodd ei blwyddyn gyntaf gyda'r cwmni i Miriam Williams a ddathlodd ei nawfed blwyddyn yn Llenyddiaeth Cymru.
- Mae ein Hadroddiad Blynyddol a'n Datganiadau Ariannol ar gyfer 2024-25 wedi'u drafftio, eu hadolygu a'u harchwilio. Bydd yr amserlen gyflymach hon yn ein galluogi i gyfieithu'r adroddiad a'i rannu â'r bwrdd yn ystod y cyfarfod yn Chwarter 2.
- Mae system newydd i weinyddu slipiau talu yn fewnol wedi'i chyflwyno yn y chwarter hwn, gan wneud ein systemau'n fwy effeithlon ac arwain at leihau costau.
- Mae aelodau'r staff (a'r bwrdd) wedi parhau i gynnal cyfarfodydd misol o'r clwb llyfrau er mwyn trafod llyfrau gan awduron o Gymru. Yn y chwarter hwn, trafodwyd *A Room Above a Shop* gan Anthony Shapland (a fu'n rhan o gynllun Cynrychioli Cymru ac Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli yn y gorffennol) ac *Earthly Creatures* gan Stevie Davies (a gyrhaeddodd restr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2025 yn y categori ffuglen).
- Treuliodd Robin, sy'n 17 oed, wythnos ar brofiad gwaith yn Nhŷ Newydd ac ysgrifennodd flog am ei brofiadau.

# Ein lle yn y Sector

Ar drothwy blwyddyn ariannol newydd, bydd gan nifer o'n cyfeillion yn y sector amser, egni ac weithiau arian i gysylltu â ni gyda'r bwriad o roi cynlluniau newydd ar waith. Dyma gyfnod cynadledda prysur hefyd, sy'n rhoi cyfleoedd gwych i dîm Llenyddiaeth Cymru fynd o fan i fan. Mae Leusa, Bran a Claire wedi dechrau cynnal cyfarfodydd misol newydd i sicrhau bod ein gwaith i ymwneud â rhanddeiliaid yn strategol ei natur, a'n bod yn rhannu gwybodaeth yn iawn am gamau gweithredu.

Rydyn ni wedi bod yn **gweld gwaith, yn cefnogi partneriaid ac yn chwilio am ysbrydoliaeth.** Er enghraifft, elwodd Claire yn arw ar ei thaith i Ŵyl Cuirt yn Cathair na Gaillimhe, diolch i Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â dod i adnabod awduron, cyhoeddwyr a newyddiadurwyr o Iwerddon, dysgwyd llawer ynghylch *pam* fod llenyddiaeth y wlad yn llwyddo i ddenu sylw byd-eang – sylw rydyn ni'n teimlo mae llenyddiaeth o Gymru yn ei haeddu hefyd. Yn dilyn hyn, y bwriad yw cynnal diwrnod Cymru/Iwerddon yn ystod Wythnos Cymru Iwerddon mewn partneriaeth â'r ŵyl.

Mae'r gwanwyn wastad yn gyfnod prysur o ddigwyddiadau, ac eleni fe wnaethon ni ymdrech i feithrin ein perthynas â Phrifysgol Abertawe/gwobr Dylan Thomas drwy fynd i weld eu rhaglen DylanEd, sy'n cael ei chynnal ochr yn ochr â'r gwobrau. Roedd hyn yn ysbrydoliaeth wych wrth weld sut y gall awduron weithio mewn ysgolion dros gyfnodau hwy, ond mae hefyd wedi bod yn fodd o feithrin perthynas â phobl allweddol sy'n rhan o sîn lenyddol Abertawe. Ac wrth gwrs, ymwelodd nifer o'r tîm â Gŵyl y Gelli – gan ymweld â digwyddiadau fel ei rhaglen ysgolion a'i gwaith partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ynghyd â'r digwyddiadau roedden ni'n rhan ohonyn nhw.

Rhan bwysig o'n gwaith yw **cynnull partneriaid a chreu cysylltiadau i wneud gwaith gwych.** Yn y chwarter hwn, cynhaliwyd prosiect LLIF, sydd wedi ysgogi trafodaethau diddorol am weithio yn y dyfodol gyda phartneriaid EUNIC, gan gynnwys y British Council. Byddwn ni hefyd yn gweithio gyda nhw i drefnu bod awdur o Wcráin yn dod ar gyfnod preswyl i Dŷ Newydd ym mis Hydref. Mae cynlluniau i gydweithio ag Iwerddon yn datblygu, gan gynnwys ysgol haf Stinging Fly yn Nhŷ Newydd. Cynhaliwyd digwyddiad ar y cyd hefyd yng Nghanolfan Cymry Llundain, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Iwerddon, i drafod cydweithio llenyddol rhwng Cymru ac Iwerddon yng nghwmni Ifor ap Glyn ac Aine Ni Ghlinn.

Yn olaf, rydyn ni wedi bod yma ac acw yn **rhannu** gwybodaeth am ein gwaith . Rydyn ni wedi bod yn rhan o sgyrsiau a thrafodaethau panel gydag Urdd Awduron Prydain Fawr, Cymdeithas yr Awduron, yr UK Soft Power Council a chynhadledd gyfieithu Aberystwyth.

Bu'n dri mis prysur dros ben...!

# Uchafbwynt wrth gyflawni ein blaenoriaethau: Diwylliant Llenyddol Cymru

**Mae gwerth economaidd a chymdeithasol anferth i ddiwylliant llenyddol Cymru, ac mae'n ein galluogi i roi Cymru ar lwyfan y byd. Yn y chwarter hwn, rydyn ni'n falch o rannu gwybodaeth am ddetholiad o brosiectau sydd wedi'n galluogi i roi platfformau i'n hawduron, a hynny'n fodd o hyrwyddo sector llenyddiaeth cyfoethog ac amrywiol yng Nghymru.**

## Awduron wrth eu Gwaith, mewn perthynas â Gŵyl y Gelli a Folding Rock.

Am ddeng niwrnod ym mis Mai/Mehefin, bu deg o awduron yn rhan o raglen orlawn o ddosbarthiadau meistr, sgyrsiau a gweithdai, a hynny drwy gynllun Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli 2025. Nod y cynllun yw rhoi cyfleoedd datblygu proffesiynol i helpu pob awdur i gyrraedd y ris nesaf yn eu gyrfaoedd ysgrifennu.

Roedd Suzie Miller, Natalie Haynes, Rachel Joyce, Tom Bullough a Cathryn Summerhayes, asiant Curtis Brown, ymhlith y siaradwyr a gynigiodd rannu eu hamser a'u harbenigedd â'r grŵp. Drwy gydol yr wythnos, aeth Folding Rock ati i gyfweld a rhoi llwyfan i bob un o'r Awduron wrth eu Gwaith ar eu gwefan, ac aeth nifer o awduron yn eu blaenau i ysgrifennu blogiau i wefan Gŵyl y Gelli. Isod mae dyfyniad o flog Jade E Bradford (cyfieithiad):

"Mae'n wanwyn 2025. Rydw i wedi gorffen ysgrifennu fy nghasgliad o straeon byrion, o'r diwedd. Mae cofiant Gosia ar gael i'w ragarchebu. Rydyn ni'n dwy am fod yn Awduron wrth eu Gwaith ac mae'r amseru'n teimlo'n iawn... Rydw i'n cwrdd ag awduron y mae'u gwaith wedi dylanwadu ar hanfod pwy ydw i. Mae pawb yn holi am yr Awduron wrth eu Gwaith. Rydw i'n ateb drwy ddweud fy mod i'n cael modd i fyw. Ac rydw i'n golygu hynny. Rydw i'n cadw llyfr nodiadau i ysgrifennu a llyfr nodiadau i hel meddyliau, yn symud o ddigwyddiadau i weithdai ac yn ôl eto, yn ceisio amsugno holl egni Gŵyl y Gelli. Dyma'r tro cyntaf i mi wir ddeall sut fath o beth yw bod yn blentyn mewn siop losin. Rydw i'n byw y tu mewn i lenyddiaeth."



Awduron wrth eu Gwaith 2025.
Cydnabyddiaeth y llun: Sam Hardwick



Yn y llun mae'r 14 o awduron a gymerodd ran yng nghyfnod preswyl LLIF/EUNIC.

## LLIF / EUNIC

Ym mis Mai, cawson ni'r fraint o ddwyn ynghyd 14 o awduron o wahanol wledydd i darfod themâu'r argyfwng hinsawdd, ecoleg, byd natur a chymdeithas drwy lens ieithoedd lleiafrifol. Gan aros yn Nhŷ Newydd, aeth yr awduron ar wibdeithiau i Ynys Enlli, clywed gan y bardd lleol Twm Morys, ymweld â Chapel y Beirdd, a dysgu am brosiectau sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd yng Nghymru fel cynllun Natur am Byth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cynhaliwyd nifer o sgyrsiau creadigol o gwmpas y bwrdd bwyd wrth iddyn nhw wrando a myfyrio am y pethau gwahanol a thebyg yn ein perthynas â'r byd. Fe allwch chi weld effaith y cyfnod preswyl hwn drwy wylio'r ffilm fer hon. Rydyn ni'n ddiolchgar i'r cyllidwyr a'r partneriaid a wnaeth yr encil hwn yn bosibl: EUNIC London, Llywodraeth Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, British Council, Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau, a Gŵyl y Gelli.

# Uchafbwynt wrth gyflawni ein blaenoriaethau: Diwylliant Llenyddol Cymru

## Sarah McCreadie, bardd Cymru EWRO 2025

Mae gan Lenyddiaeth Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru berthynas ers tro byd. Ym mis Hydref 2024, roedden ni'n falch o gefnogi Cymru, a oedd wedi cyrraedd gemau ail gyfle UEFA Ewros y Menywod am y tro cyntaf, a hynny wrth i 400+ o blant ledled Cymru fynd ati i ysgrifennu cerddi. Cafodd Sarah McCreadie, bardd llwyddiannus ac artist sy'n perfformio barddoniaeth, ei chomisiynu ym mis Mehefin i glodfori ymdrechion Cymru ym mhencampwriaeth UEFA Ewro Menywod 2025 yn y Swistir.

Ddydd Iau 19 Mehefin, dringodd Sarah i gopa'r Wyddfa i glywed y cyhoeddiad am bwy fyddai yng ngharfan Cymru. Tasg nid ansylweddol Sarah fydd ysgrifennu 15 o gerddi tan ddiwedd y gemau grŵp. A hithau'n dysgu Cymraeg ac yn gweu'r iaith i'w cherddi, mae Sarah wedi bod yn gweithio gyda Marged Tudur i gyfieithu rhai o'i darnau hirach i'r Gymraeg. Isod y mae dyfyniad o'r gerdd gyntaf a gomisiynwyd, 'Rydyn ni yma / We are here'. Bydd holl gerddi Sarah yn cael eu rhannu ar ein cyfryngau cymdeithasol, ar y wefan ac yn ein cylchlythyr.



Sarah McCreadie, y Bardd Preswyl, gyda dwy o garfan Cymru 2025. Cydnabyddiaeth y llun: Cymdeithas Bêl-droed Cymru



Sarah McCreadie, y Bardd Preswyl, ar gopa'r Wyddfa. Cydnabyddiaeth y llun: FA Wales

Tân, tonnau
a phêl-droed
a greodd
y copa hwn

Ni ddechreuodd y daith gyda phedair gôl
dechreuodd pan oedd y menywod hanesyddol hyn
yn ferched bach mewn citiau rhy fawr
ac yn mentro cicio pêl am y tro cyntaf

Dechreuodd â chamau cyntaf 1973
dechreuodd â merched Add Gorff
yn cicio'n erbyn y tresi

*Taswn i'n cael siarad â'r Rhiannon fach*
*mi ddwedwn wrthi am gredu*

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Cynaladwyedd: Uchafbwyntiau a diweddariadau

## Cynnydd chwarter 1

Ym mis Ebrill, gofynnwyd i'r holl staff gymryd rhan mewn prynhawn glanhau digidol i leihau faint o ofod storio yn y cwmwl rydyn ni'n ei ddefnyddio, ac i leihau'r allyriadau cysylltiedig (sy'n cael eu creu wrth ddefnyddio trydan ac wrth oeri'r gweinyddion). I leihau faint o ddata rydyn ni'n eu defnyddio, rhoddwyd cyfarwyddiadau manwl a system i rannu cyfrifoldeb am sianeli SharePoint i'r holl staff. Bydd sesiynau dilynol yn cael eu trefnu yn Chwarter 2 i gwblhau'r gwaith hwn os na allodd y staff wneud hynny yn y sesiynau cychwynnol. Byddwn ni hefyd yn trefnu sesiwn debyg i ganolbwyntio ar negeseuon e-bost yn ystod Chwarter 3.

## Chwarter 1 Targedau a fethwyd

Yn y chwarter hwn, roedden ni'n gallu dechrau monitro ein hallyriadau ym mlwyddyn 2024-25. Yn anffodus, ni chyrhaeddwyd nifer o'r targedau ar gyfer teithio a thrafnidiaeth, wrth i filltiroedd teithio a'r allyriadau cysylltiedig barhau i gynyddu.

Am y tro cyntaf, roedd milltiroedd y staff yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (amcangyfrif o 13,924 o filltiroedd) yn uwch nag oedd cyn y pandemig (amcangyfrif o 13,578 o filltiroedd yn 2019-20). At hynny, teithiodd awduron lawer mwy yn 2024-25, gan hawlio amcangyfrif o 16,126 o filltiroedd wrth wneud gweithgareddau ar ran Llenyddiaeth Cymru. Dyma gynnydd o 46% o'i gymharu â 2023-24 (amcangyfrif o 11,076 o filltiroedd), er ei fod ychydig yn llai na'r milltiroedd a hawliwyd yn 2022-23 (amcangyfrif o 16,477 o filltiroedd).

I leihau'r allyriadau hyn yn y flwyddyn ariannol bresennol, aeth y Swyddogion Cynaliadwyedd ati i adolygu'r milltiroedd teithio yn ôl y ganolfan gost, gan ganfod beth yn union mewn prosiectau a gwaith gweithredol sy'n cyfrannu fwyaf at y milltiroedd hyn.

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Creadigrwydd

Canlyniadau:
- Creir gwaith creadigol newydd sy'n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru
- Mae awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn derbyn llwyfan ac yn cael eu dathlu, trwy berfformiadau, comisiynau a chael eu penodi'n diwtoriaid, beirniaid ac yn feirdd llawryfog.
- Sector byrlymus sy'n ffynnu ar gyfer awduron a hwyluswyr llenyddol lle cânt eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| 8 darn o waith comisiwn newydd gan y Bardd Cenedlaethol, wedi'u cyhoeddi a/neu berfformio. | **Ar y trywydd iawn:** 1 wedi'i gwblhau (Menywod Cronig), dau arall yn yr arfaeth (Techniquest a'r Ganolfan Astudiaethau Islam), ynghyd ag un yn uniongyrchol gan Llenyddiaeth Cymru am fewnforio/allforio yng Nghaerdydd. | |
| 15 o gerddi newydd wedi'u creu gan fenywod sydd â phrofiad bywyd o anabledd a salwch cronig, a hynny fel rhan o'r rhaglen Menywod Cronig | Ysgrifennwyd 14 o gerddi gwreiddiol, a'u cyflwyno i'r flodeugerdd. Yn anffodus tynnodd 1 bardd allan o'r prosiect. Ond bydd pob un o'r 14 cerdd yn cael eu haddasu i'r Saesneg neu'r Gymraeg – gyda 28 o gerddi yn y flodeugerdd i gyd. Bydd y flodeugerdd yn cael ei chyhoeddi yn Chwarter 4. | |
| Cerdd newydd ar ffurf gwaith celf gweledol wedi'i chreu ar y cyd rhwng Anni Llŷn ac aelodau o grŵp cymunedol ym Mhen Llŷn, gan ymateb i thema erydiad a Sarn y Plas. | **Ar y trywydd iawn:** Ar y gweill – mae'r artist wedi'i gomisiynu a'r rhaglen ar y trywydd iawn. | |
| 75 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron dwys (megis Cynrychioli Cymru neu Gwrs Strategol TN) | **Ar y trywydd iawn:** Wedi ymwneud â 43 hyd yma eleni, gyda disgwyl ymwneud â llawer mwy yn ystod y Cyrsiau Strategol y gaeaf hwn. | |
| 3 astudiaeth achos yn cael eu cyhoeddi yn dathlu awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi elwa o raglenni LlC a 'thudalen crychdonnau' wedi'u creu ar gyfer y wefan | **Ar y trywydd iawn:** Cysylltwyd ag Anthony Shapland a bwriedir creu astudiaeth achos ar fideo erbyn diwedd yr haf. Bydd angen penderfynu ar ddau awdur arall erbyn tymor yr hydref 2025 gyda golwg ar gyhoeddi'r astudiaethau achos ym mis Medi, mis Tachwedd a mis Chwefror. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Creadigrwydd

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Creir gwaith creadigol newydd sy’n cyfoethogi hunaniaeth lenyddol Cymru
- Mae awduron o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg yn derbyn llwyfan ac yn cael eu dathlu, trwy berfformiadau, comisiynau a chael eu penodi'n diwtoriaid, beirniaid ac yn feirdd llawryfog.
- Sector byrlymus sy’n ffynnu ar gyfer awduron a hwyluswyr llenyddol lle cânt eu cefnogi i ddatblygu eu sgiliau creadigol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| 8 awdur o gefndiroedd heb gynrychiolaeth deg sydd wedi cymryd rhan mewn rhaglenni datblygu awduron LlC yn cael eu gwahodd am y tro cyntaf fel tiwtoriaid neu ddarllenydd gwadd ar gyrsiau Tŷ Newydd (wyneb yn wyneb neu yn rhithiol) | **Ar y trywydd iawn:** Mae’r gwaith rhaglennu’n mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae hyn yn ffactor wrth wneud penderfyniadau. | |
| Hwyluswyr Sgwennu’n Well yn cael eu cefnogi i gynllunio a chyflawni prosiectau creadigol ar gyfer iechyd a llesiant yn eu cymunedau dewisedig. Grŵp o 6 o hwyluswyr, a hwythau’n awduron sy’n cael eu tangynrychioli, yn cael cymorth personol i ddatblygu rhaglen i gefnogi cymuned o’u dewis nhw erbyn mis Rhagfyr 2025. | **Ar y trywydd iawn:** Mae hyfforddiant wrthi’n cael ei roi, a bydd y prosiectau wedyn yn cael eu datblygu dros yr haf a’u cyflwyno yn nhymor yr hydref. | |
| 10 o awduron a gymerodd ran yng nghwrs Ailddychmygu’r Prif Gymeriad yn 24/25 yn sôn yn gadarnhaol am eu hyder a’u sgiliau creadigol 9 mis ar ôl y cwrs (Tachwedd 2024).<br>Bydd 8 yn rhagor o awduron sy’n Anabl a/neu’n Fyddar yn cael eu recriwtio ar gyfer grŵp 3, gyda rhaglen addas yn cael ei chreu ar gyfer cwrs preswyl yn Nhŷ Newydd. | **Ar y trywydd iawn:** Adborth ar ôl 9 mis i’w anfon cyn hir, a recriwtio i fynd rhagddo yn Chwarter 3. | |
| 14 o awduron yn cymryd rhan yn Speak Back (cwrs i egin awduron) ym mis Mawrth 2025 yn dweud eu bod wedi cyflawni amcanion creadigol personol 6 mis yn ddiweddarach, a hynny diolch i’r cwrs. Er enghraifft, perfformio mewn digwyddiad barddoniaeth o bwys, neu ennill ‘slam’. | **Ar y trywydd iawn:** Does dim angen gweithredu tan fis Medi. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Cydraddoldeb ac Ymgysylltu

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Cynnydd mewn hyder ac arbenigedd sefydliadol wrth roi cynhwysedd a hygyrchedd wrth wraidd cynllunio creadigol
- Mae cyfleoedd i ymwneud â llenyddiaeth yn cael eu darganfod gan unigolion ledled Cymru
- Mae cymunedau a dangynrychiolir yn hanesyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| Staff yn adrodd cynnydd mewn hyder ac ymwybyddiaeth wrth wneud prosiectau yn hygyrch ac yn gynhwysol, ac yn defnyddio chyfarfodydd staff a creadigol i rannu gwybodaeth ac arbenigedd. Dros 50% yn cytuno'n gryf. | **Dim cynnydd eto**: Arolwg y staff i'w gynnal yn Chwarter 3. | |
| Mae'r staff yn dweud bod ganddyn nhw fwy o ddealltwriaeth a hyder i weithio'n sensitif gydag awduron anabl a B/byddar ar ôl datblygu a darparu cwrs yn Nhŷ Newydd yn benodol i'r gymuned hon. 100% o'r staff a weithiodd ar gwrs Ailddychmygu'r Prif Gymeriad yn dweud bod ganddyn nhw fwy o ddealltwriaeth a hyder. | **Dim cynnydd eto:** Encil yn cael ei gynllunio a bydd hyn yn cael ei fesur yn arolwg y staff yn ddiweddarach eleni. | |
| Y Tîm Cyfathrebu i rannu canllawiau â staff ar gyfer canfod cynulleidfaoedd targed ac unrhyw rwystrau y gallan nhw'u hwynebu wrth ymwneud â'n cyfleoedd a'n gwasanaethau. Canllawiau wedi'u rhannu erbyn mis Mehefin 2025 a'r staff yn yr arolwg staff blynyddol yn dweud bod ganddyn nhw fwy o wybodaeth a hyder. | **Oedi yn y broses:** Yn bennaf oherwydd prosiect yr EWROS (a gadarnhawyd yn hwyr) bu oedi gyda hwn, ond mae cynlluniau i rannu'r canllawiau dros yr haf. | |
| 175 o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu hariannu trwy Gronfa Ysbrydoli Cymunedau, a dwy astudiaeth achos yn cael eu rhannu gan drefnwyr digwyddiadau yn manylu sut i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. | **Ar y trywydd iawn:** 91 o sesiynau wedi'u cefnogi rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025. Bydd yr astudiaethau achos yn cael eu cyflwyno yn Chwarter 2. | |
| 40 o gyfranogwyr sydd â phrofiad bywyd o anabledd a/neu salwch cronig yn sôn am yr effeithiau cadarnhaol ar lesiant wrth gymryd rhan mewn gweithdai sy'n gysylltiedig â'r prosiect Menywod Cronig, o dan arweiniad Hanan Issa a Gwyneth Lewis. | **Ar y trywydd iawn:** Y gweithdai i'w cynnal rhwng mis Tachwedd 2025 a mis Chwefror 2026; bydd partneriaid y prosiect yn cwrdd cyn hir i drafod pa grwpiau o gyfranogwyr y byddan nhw'n gweithio gyda nhw yn y gwahanol fyrddau iechyd. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Cydraddoldeb ac Ymgysylltu

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Cynnydd mewn hyder ac arbenigedd sefydliadol wrth roi cynhwysedd a hygyrchedd wrth wraidd cynllunio creadigol
- Mae cyfleoedd i ymwneud â llenyddiaeth yn cael eu darganfod gan unigolion ledled Cymru
- Mae cymunedau a dangynrychiolir yn hanesyddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau llenyddol

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| Bydd Nia Morais, Bardd Plant Cymru, yn gweithio gyda 30 o bobl ifanc sy'n arddel hunaniaeth LHTDC+ i gyfuno barddoniaeth a chelfyddyd traeth yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot ac Ynys Môn. Bydd y prosiect hwn, sy'n dathlu'r defnydd o'r Gymraeg mewn cymuned sy'n cael ei thangynrychioli, yn cael ei gynnal ar y cyd â'r Urdd, a fydd yn comisiynu ffilm fer o'r gerdd/gosodiad celf terfynol. | **Ar y trywydd iawn:** Nid yw cynllun gwreiddiol yr Urdd i greu prosiect ar y cyd â phobl ifanc LHDTC+ yng Nghastell-nedd ac Ynys Môn wedi'i wireddu. Yn hytrach, bydd Nia'n gweithio gyda 15 o bobl ifanc yng Nghastell-nedd. Mae gweithdy ychwanegol wedi'i drefnu gyda Llyfrau Lliwgar yng Nghaerdydd a gydag ysgolion lleol. Bydd y ddau weithdy'n cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf gyda disgwyl creu'r celf ar y traeth ym mis Awst. | |
| £3,000 i'w ddosbarthu o'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i drefnwyr digwyddiadau ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful, Sir y Fflint a Wrecsam, sy'n ardaloedd lle mae digwyddiadau drwy'r gronfa yn brin. Bydd hyn yn dilyn ymgyrch wedi'i thargedu i ymwneud â threfnwyr digwyddiadau a'u cefnogi, a hynny drwy broses ymgeisio. | **Yn mynd rhagddo, ond yr amserlen wedi llithro:** Mae'r gwaith ymchwil/gwaith cwmpasu cychwynnol ar gyfer awdurdod lleol Wrecsam ar y gweill, gyda threfnwyr digwyddiadau unigol a grwpiau/sefydliadau wedi'u canfod. Mae rhagor o waith ymchwil ar dri awdurdod lleol arall i'w gwblhau yn Chwarter 2. Ymgyrch wedi'i thargedu i ddechrau yn Chwarter 2. Ni ddaeth ceisiadau i law o unrhyw un o'r 4 awdurdod lleol a dargedir yn Chwarter 1. | |
| 10 ysgol ac un Uned Drochi Gymraeg yn Wrecsam yn cael gweithdai ysgrifennu creadigol cyn mis Awst 2025, gan gyhoeddi pamffled o'u cerddi a chynnal digwyddiad i ddathlu yn yr Eisteddfod ei hun. | **Ar y trywydd iawn:** Gweithdai wedi'u darparu ac mae'r pamffled yn barod i gael ei lansio yn yr Eisteddfod yn Wrecsam ym mis Awst, mewn dathliad lle bydd 20 o blant ysgol yn perfformio'u cerddi. | |
| 5 grŵp ym Mhen Llŷn, nad ydyn nhw'n ymwneud â phrosiectau llenyddol gan amlaf, wedi cymryd rhan ym mhrosiect Erydiad gydag Anni Llŷn i edrych ar leisiau'r gymuned a barn pobl am y dirwedd, yr argyfwng hinsawdd, cymdeithas ac iaith. | **Wedi'i gwblhau:** Sesiynau wedi'u cynnal â grŵp darllen yn Nefyn, a'r rheini ar agor hefyd i gwsmeriaid tafarn gymunedol Yr Heliwr, Nefyn; sesiynau i'r teulu hefyd ym Mhlas Carmel; gweithdai gyda Blwyddyn 8 Ysgol Botwnnog a sesiynau gyda siaradwyr Cymraeg newydd ym Mhlas Carmel a Congl Meinciau – grwpiau oedd y rhain nad ydyn nhw wedi ymwneud â gweithgareddau ysgrifennu creadigol yn ddiweddar. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Y Gymraeg

Canlyniadau:
- Mae awduron (gweithwyr proffesiynol, cyfranogwyr a Phlant a Phobl Ifanc) yn datblygu sgiliau creadigol - ac yn cael eu hannog i greu gwaith artistig arloesol - trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cymru sy’n dathlu ein diwylliant a’n traddodiadau llenyddol Cymreig unigryw ac amrywiol gyda hyder, gan sicrhau eu bod yn ffynnu
- Diwylliant o barch, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a’i thraddodiad llenyddol o fewn ein swyddfeydd, ein rhwydweithiau llawrydd a’r sector ehangach.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| Nia Morais, Bardd Plant Cymru, i gyhoeddi o leiaf 4 cerdd ar gyfer plant Cymru ar amrywiaeth o themâu. Bydd rhai yn ffrwyth cydweithio, a rhai’n cael eu creu ar y cyd â phartneriaid rhaglen Bardd Plant Cymru (Yr Urdd, Llywodraeth Cymru, S4C, Cyngor Llyfrau Cymru). | **Ar y trywydd iawn:** 2 gerdd wedi’u cwblhau. Mae cerdd ar y gweill i ddathlu hanner canmlwyddiant gwobrau Tir na n-Og gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Bydd y bedwaredd yn cael ei chwblhau erbyn mis Awst. | |
| 10 o awduron LHDTCA+ Cymraeg sy’n ymweld â Thŷ Newydd fel rhan o encil sy’n bartneriaeth rhwng Llyfrau Lliwgar a Llenyddiaeth Cymru yn mynd yn eu blaenau i gyfrannu at gyhoeddiad sy’n cynnwys gwaith creadigol arloesol ar themâu LHDTCA+. | **Ar y trywydd iawn:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio’r cwrs ac mae’r alwad am awduron ar agor, ond y cwrs ddim i’w gynnal tan y gaeaf. | |
| Y 12 awdur ifanc sy’n cymryd rhan yng Nghwrs Olwen yn adrodd eu bod yn teimlo’n fwy hyderus, wedi’u hysbrydoli i ddechrau eu gyrfaoedd ysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg a gyda gwell dealltwriaeth o lwybrau cyhoeddi. | **Heb ddechrau eto:** Mae gwaith yn mynd rhagddo i gynllunio’r cwrs ac mae’r alwad am awduron ar agor, ond y cwrs ddim i’w gynnal tan y gaeaf. | |
| Gwobr Llyfr y Flwyddyn, a’r enillwyr Cymraeg, yn cael sylw yn y wasg Saesneg. 6 darn yn rhoi sylw gan ganolbwyntio ar y rhestr fer/enillwyr Cymraeg. | **Ar y trywydd iawn:** 3 darn yn rhoi sylw i gyhoeddi’r rhestr fer, ac mae disgwyl rhagor i roi sylw i’r seremoni a’r enillwyr. Cafwyd sylw yn nation.Cymru, BBC a’r Western Mail. | |
| Cynllun Pencerdd i gywion cynganeddwyr yn cael ei gynnal am yr eildro i 6 o unigolion sy’n cael eu tangynrychioli. Mae’r rhaglen yn canolbwyntio ar draddodiad llenyddol hynaf a mwyaf unigryw Cymru, ac yn sicrhau ei fod yn esblygu ac yn cael ei ddefnyddio gan leisiau newydd. 5 o gynganeddwyr newydd y mae’u lleisiau a’u profiadau bywyd wedi’u tangynrychioli yn y byd cynganeddol yn cymryd rhan mewn rhaglen ddatblygu, gan rannu’r hyn a ddysgir â chymuned o’u dewis nhw. | **Ar y trywydd iawn:** Grŵp newydd sy’n cael eu tangynrychioli fel cynganeddwyr (80% yn fenywod, 60% yn LHDTC+, 20% o gefndir dosbarth gweithiol, 20% o’r gogledd-ddwyrain). | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Y Gymraeg

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:
- Mae awduron (gweithwyr proffesiynol, cyfranogwyr a Phlant a Phobl Ifanc) yn datblygu sgiliau creadigol - ac yn cael eu hannog i greu gwaith artistig arloesol - trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cymru sy'n dathlu ein diwylliant a'n traddodiadau llenyddol Cymreig unigryw ac amrywiol gyda hyder, gan sicrhau eu bod yn ffynnu
- Diwylliant o barch, dealltwriaeth a brwdfrydedd tuag at yr iaith Gymraeg a'i thraddodiad llenyddol o fewn ein swyddfeydd, ein rhwydweithiau llawrydd a'r sector ehangach.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| Dathlu diwylliant a thraddodiadau llenyddol Cymru drwy bartneriaeth ag Iwerddon. 3 digwyddiad (cyrsiau/digwyddiadau cyhoeddus) yn cael eu darparu sy'n creu cysylltiadau rhwng diwylliant llenyddol Cymru ac Iwerddon. | **Ar y trywydd iawn:** 1 digwyddiad wedi'i gynnal yng Nghanolfan Cymry Llundain (10 Mehefin) gydag Ifor ap Glyn ac Aine Ni Ghlinn. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal am ragor o ddigwyddiadau i gyd-daro ag Wythnos Cymru yn Nulyn (Mawrth 26). Mae cwrs mewn partneriaeth â Stinging Fly wedi'i raglennu. | |
| Staff sy'n ddysgwyr Cymraeg yn dweud bod y sesiynau Cymraeg a arweinir gan wahanol aelodau'r tîm sy'n siaradwyr rhugl wedi gwella'u hyder i ddefnyddio'u Cymraeg yn eu swyddi. Mae'r holl ddysgwyr Cymraeg yn dweud eu bod nhw'n fwy hyderus, ac yn gallu defnyddio'u sgiliau Cymraeg yn y gweithle mewn ffyrdd pendant. | **Ar y trywydd iawn:** Mae sesiynau'n cael eu cynnal yn wythnosol ond bydd gwaith i fesur sut y cyrhaeddir y targed hwn yn cael ei wneud fel rhan o arolwg y staff ym mis Medi/Hydref. | |
| 8 o awduron yn cymryd rhan mewn gwersi Cymraeg drwy ein cymorth a'n hymyriadau. Parhau i ddatblygu'r bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gynnig cyrsiau dysgu Cymraeg sydd wedi'u creu'n benodol ar gyfer yr awduron sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o'n rhaglenni, yn dilyn cyrsiau tebyg yn 2023 a 2024. | **Ar y trywydd iawn:** Cadarnhawyd y bartneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bydd sesiwn gyflwyniadol yn cael ei chynnal ym mis Gorffennaf gyda gwersi wythnosol yn dechrau ym mis Medi, ac yn parhau tan fis Mawrth 2026. Bydd 11 o awduron o dair rhaglen yn cael eu cefnogi (8 o gynllun Cynrychioli Cymru, 2 o gynllun Sgwennu'n Well ac 1 o gynllun Awduron wrth eu Gwaith). | |
| Bydd gan awduron sy'n gweithio mewn ieithoedd Ewropeaidd lleiafrifol fwy o ddealltwriaeth am Gymru a'r Gymraeg, yn dilyn cyfnod preswyl dros bythefnos yn Nhŷ Newydd ym mis Mai 2025. Bydd yr holl awduron yn sôn am well dealltwriaeth yn y gwerthusiad wedi'r cyfnod preswyl, a'r rhan fwyaf yn dymuno cydweithio ymhellach ag awduron o Gymru. | **Ar y trywydd iawn:** Gwerthusiad wedi'r cyfnod preswyl wedi'i anfon at yr holl awduron a bydd yn cael ei ddychwelyd a'i ddadansoddi ym mis Gorffennaf. Roedd y sylwadau cychwynnol a roddwyd ar lafar yn hynod o gadarnhaol am y cyfnod preswyl, ynghyd â'r ddealltwriaeth o Gymru a'r Gymraeg (nid yn unig ymhlith yr awduron, ond ymhlith y sefydliadau diwylliannol a oedd yn bartneriaid hefyd). | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Cyfiawnder Hinsawdd

Canlyniadau:

- Mae gweithgarwch sy'n defnyddio llenyddiaeth i gynyddu dealltwriaeth am yr argyfwng hinsawdd yn ysbrydoli unigolion a chymunedau i wneud newidiadau er lles yr amgylchedd a'r hinsawdd
- Cynnydd mewn dealltwriaeth ar draws tîm Llenyddiaeth Cymru o effaith amgylcheddol ein gwaith, a chynnydd mewn hyder wrth ystyried a gweithredu arferion cynaliadwy
- Lleihau allyriadau carbon weithrediadau Llenyddiaeth Cymru, ar y trywydd iawn i fod yn garbon niwtral erbyn 2030

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| Cyfranogwyr o EcoDewi ym Mhenrhyn Tyddewi yn teimlo wedi eu grymuso i daclo materion cyfiawnder hinsawdd leol, a chynnydd yn y teimlad o gydlyniad cymunedol yn dilyn cyfranogiad ym mhrosiect Llên mewn Lle. | **Wedi'i gwblhau:** Cadarnhaodd yr adborth fod cyfranogwyr EcoDewi ar benrhyn Tyddewi yn teimlo'n fwy parod i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chyfiawnder hinsawdd ar ôl y gweithdai: *"Agorodd y prosiect fy llygaid i gynifer o bethau nad oeddwn i'n eu gwybod (neu'n dewis peidio â'u gwybod). Tynnodd y gweithdai fy sylw at bwysigrwydd y newid yn yr hinsawdd, a'r angen i sgwrsio amdano, ac roedd ysgrifennu am hyn yn fy helpu i ddeall pethau'n well."*<br><br>Cadarnhaodd yr adborth hefyd fod gan y cyfranogwyr ymdeimlad cryfach o gydlyniant cymunedol ar ôl cymryd rhan yn y cynllun Llên mewn Lle: *"Synnais at sut gwnaeth y gweithgareddau ysgogi sawl peth – syniadau, sylweddoliadau, ysbrydoliaeth. Rydw i'n awyddus iawn i wneud mwy oherwydd hyn! Gwnaeth i mi feddwl am blanhigion a fy nghyfraniad i at y byd. Roedd yn broc i'r meddwl wrth roi cyfle i feddwl a chyfathrebu y tu allan i'n byd cyfforddus arferol ni, ac roedd hynny'n werth chweil iawn i mi. Mae'r ymrwymiad cymunedol yn beth gwych, ac roedd hi'n braf bod gyda'n gilydd mewn grŵp i sgwrsio gyda'r ffermwr a'r ecolegydd, a roddodd gymaint mwy o gyd-destun i bethau. Rydw i'n teimlo fy mod i wedi dysgu pob math o bethau."* | |
| Alex yn ymweld â 5 ysgol ar ei daith gerdded 5 niwrnod yn Ynys Môn, gan gynnal gweithdai am yr argyfwng hinsawdd | **Wedi'i gwblhau:** Cyrhaeddwyd dros 350 o blant ar y daith gerdded, gan ymweld â 5 o ysgolion. | |
| 2 o gyfnodau preswyl i awduron i'w darparu gan hwyluswyr lleol i helpu grwpiau cymunedol sy'n bodoli'n barod i ddefnyddio ysgrifennu creadigol i ymateb yn gadarnhaol i effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn lleol. | **Ar y trywydd iawn:** Cadarnhawyd cyllid gan WWF, gyda'r cyfnod preswyl cyntaf i'w gynnal yn nhymor yr hydref 2025 yn ardal moryd afonydd Cleddau. | |
| Y staff yn deall buddion defnyddio hwyluswyr lleol, ac yn dilyn yr arferion gorau wrth gynllunio prosiectau. Y staff yn cael adroddiadau am filltiroedd sy'n gysylltiedig â phrosiectau bob chwater, ac yn dweud yn arolwg y staff eu bod yn deall buddion defnyddio hwyluswyr lleol ac wedi cyflwyno newidiadau wrth gynllunio prosiectau | **Ar y trywydd iawn** ond dim cynnydd amlwg eto. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Cyfiawnder Hinsawdd

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau:

- Mae gweithgarwch sy'n defnyddio llenyddiaeth i gynyddu dealltwriaeth am yr argyfwng hinsawdd yn ysbrydoli unigolion a chymunedau i wneud newidiadau er lles yr amgylchedd a'r hinsawdd
- Cynnydd mewn dealltwriaeth ar draws tîm Llenyddiaeth Cymru o effaith amgylcheddol ein gwaith, a chynnydd mewn hyder wrth ystyried a gweithredu arferion cynaliadwy
- Lleihau allyriadau carbon weithrediadau Llenyddiaeth Cymru, ar y trywydd iawn i fod yn garbon niwtral erbyn 2030

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| Erbyn mis Rhagfyr 2025, archwiliad mewnol anffurfiol wedi'i gwblhau o brosesau caffael Llenyddiaeth Cymru i sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei ystyried wrth brynu ar raddfa fach a mawr. Archwiliad wedi'i gwblhau a sesiwn hyfforddiant wedi'i rhoi i'r staff | **Dim cynnydd eto** | |
| Rhestr wirio o'r ystyriaethau cynaliadwyedd wedi'i rhannu â threfnwyr digwyddiadau cymunedol lleol. Bydd honno ar gael ar y wefan ac yn cael ei rhannu, a bydd cymorth wedi'i gynnig i 8 o sefydliadau sy'n gwneud cais i'r Gronfa Ysbrydoli Cymunedau. | **Ar y trywydd iawn:** Y rhestr wirio wedi'i rhannu ar y wefan a chyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer tîm y prosiect ym mis Gorffennaf i benderfynu ar yr 8 sefydliad | |
| 40% o fwyd Tŷ Newydd yn cael ei brynu gan gyflenwyr lleol. | **Ddim ar y trywydd iawn:** Mae dadansoddiad o dderbynebau Chwarter 1 yn dangos mai dim ond 25% a brynwyd gan gyflenwyr lleol. Y Rheolwr Lleoliadau yn helpu'r Cydlynydd Lletygarwch i wella hyn. Rhai o gamau gweithredu Chwarter 2: trefnu i gyflenwr lleol ddanfon llefrith; newid y coffi o Lavazza i Poblado; a holi'r deli yng Nghricieth am y gost o brynu mwy oddi yno. | |
| Cynllun i leihau'r defnydd o nwy wedi'i greu erbyn mis Awst 2025, ac wedi'i gyflwyno i'r staff yn Chwarter 3. Rheolwr Tŷ Newydd i roi adroddiad am y camau ymarferol a gymerwyd i leihau'r defnydd o nwy erbyn mis Mawrth 2026. | **Ar y trywydd iawn:** Amser wedi'i neilltuo gyda'r staff perthnasol i gwblhau'r cynllun ym mis Awst 2025. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Datblygu Talent

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Canlyniadau :
- Cefnogi gweithlu medrus a gweledigaethol o weithwyr llawrydd, awduron proffesiynol a staff o fewn y sector llenyddol gan ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd â thâl ac eirioli dros ymarferion cyflogi teg.
- Mae awduron, yn enwedig awduron o gymunedau sy'n wynebu rhwystrau rhag ddatblygu eu sgiliau a'u gyrfaoedd, yn derbyn cefnogaeth i wneud cynnydd gyda'u 'sgwennu a chyfleoedd cyhoeddi
- Dethlir yr ystod amrywiol o awduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru a thrwy hyn, anogir rhagor o gyd-ddealltwriaeth ledled Cymru

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| Cyhoeddi diweddariad canllawiau Ffioedd Awduron a chanllawiau Cyflogaeth Deg ym mis Mawrth 2025. Ffioedd ar gyfer 2025/26 i gael eu mesuro yn erbyn canllawiau. Lledu ymwybyddiaeth o'r canllawiau drwy sgyrsiau uniongyrchol ag awduron, a'u helpu i eirioli dros ffioedd teg. Diweddariad i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2025. 30 o awduron i elwa o sgyrsiau penodol am ffioedd awduron a sut i eirioli drostyn nhw'u hunain. | **Oedi yn y broses, ond ar y trywydd iawn.** Bydd diweddariad o ffioedd i awduron (ar gyfer 26/27) yn cael ei gyhoeddi erbyn yr hydref, er mwyn gallu cyllidebu ar gyfer 26/27.<br><br>Mae system i ganfod anghysondebau mewn ffioedd ar waith. Dim ond 2 anghysondeb yn Chwarter 1 – 1 gan fod yr awdur wedi anfonebu am £10 yn llai na'r hyn a oedd yn ddyledus, ac un yn ymwneud â sefyllfa lle roedd aros ym mwthyn Nant yn rhan o'r cytundeb.<br><br>Atgoffwyd yr holl staff i gynnal sgyrsiau penodol a chreu system yn y Log Cymorth i fonitro hyn. | |
| 2 o gamau gweithredu pendant wedi'u cymryd yn dilyn y rhaglen Newid Diwylliant. | **Wedi'i gwblhau.** Bu dyrchafiad mewnol, a phenodwyd rhywun i swydd lefel mynediad newydd a honno'n benodol i rywun o gefndir sy'n cael ei dangynrychioli ym myd gweinyddu'r celfyddydau. | |
| Cynnig cyfleoedd cyflogedig uniongyrchol i o leiaf 175 awdur proffesiynol; i fod yn diwtor, mentor, hyfforddi neu berfformio ar raglenni LlC. | **Ar y trywydd iawn:** Mae 61 o awduron gwahanol wedi'u talu am eu gwasanaethau yn Chwarter 1. | |
| Cyfranogwyr Cynrychioli Cymru sy'n dymuno gwneud hynny yn cyhoeddi gwaith o fewn tair blynedd i gymryd rhan yn y rhaglen. 40% o gyfranogwyr Cynrychioli Cymru wedi cyhoeddi eu cyfrolau eu hunain o fewn 3 blynedd i gymryd rhan. | **Ar y trywydd iawn**. Mae nifer o awduron yn paratoi i gyflwyno'u gwaith. Ymhlith rhai o uchafbwyntiau'r chwarter hwn mae: Llyfr Anthony Shapland, *A Room Above a Shop*, i'w gyfieithu i'r Gymraeg gan Esyllt Angharad Lewis, a fu'n un o Awduron wrth eu Gwaith Gŵyl y Gelli. Bydd y gyfrol yn cael ei chyhoeddi'n ddiweddarach eleni (*Lan Star*). Enillodd Natasha Gauthier Wobr Poetry Wales, gyda Natasha Borton yn ail (y ddwy yn rhan o gynllun Cynrychioli Cymru 4). Roedd Steffan Wilson-Jones, o gynllun Cynrychioli Cymru 5, yn un o dri enillydd cystadleuaeth ysgrifennu stori fer Sebra. Bydd ei waith yn cael ei gyhoeddi mewn detholiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae dau awdur (o gynlluniau Cynrychioli Cymru 2 a 3) wedi cael contractau cyhoeddi ar gyfer eu llyfrau cyntaf (nid yw hyn yn newyddion cyhoeddus eto). | |
| 300 o bobl yn bresennol yn sesiynau cyhoeddus y rhaglenni i ddatblygu awduron a gyflwynir yn rhithwir, gan ganolbwyntio ar ysbrydoli awduron ac esbonio'r llwybrau i gyhoeddi. Y sesiynau ar agor i bawb (i'r cyhoedd) ond yn cael eu marchnata'n benodol i ymgeiswyr aflwyddiannus am ein cynigion i ddatblygu awduron. | **Ar y trywydd iawn:** Y gwaith rhaglennu'n mynd rhagddo. | |

# Targedau Cyngor Celfyddydau Cymru 25/26: Datblygu Talent

Canlyniadau :

- Cefnogi gweithlu medrus a gweledigaethol o weithwyr llawrydd, awduron proffesiynol a staff o fewn y sector llenyddol gan ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd â thâl ac eirioli dros ymarferion cyflogi teg.
- Mae awduron, yn enwedig awduron o gymunedau sy’n wynebu rhwystrau rhag ddatblygu eu sgiliau a’u gyrfaoedd, yn derbyn cefnogaeth i wneud cynnydd gyda’u ’sgwennu a chyfleoedd cyhoeddi
- Dethlir yr ystod amrywiol o awduron cyfoes a threftadaeth lenyddol Cymru a thrwy hyn, anogir rhagor o gyd-ddealltwriaeth ledled Cymru

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| 5 o gywion cynganeddwyr yn cael eu paru ag athro barddol fel rhan o’r rhaglen flwyddyn o hyd erbyn mis Gorffennaf 2025. | **Wedi’i gwblhau:** . Mae’r 5 egin gynganeddwr wedi cael eu paru ag Athro Barddol yn barod am y broses ddatblygu flwyddyn o hyd: Nanw Maelor – Eurig Salisbury ; Megan Jones – Osian Rhys Jones ; Mared Fflur – Mererid Hopwood ; Llio Maddocks – Rhys Iorwerth; Brennig Davies – Gruffudd Eifion Owen | |
| Bardd Cenedlaethol Cymru a’i gwaith yn cael ei llwyfannu mewn 6 digwyddiad proffil uchel, fel lansiad swyddogol Gardd Goffa Erddig, a’r cydweithio rhwng Cymru ac Iwerddon yn Llysgenhadaeth Iwerddon ym mis Mehefin. | **Ar y trywydd iawn:** Perfformiwyd cerdd gomisiwn deugeinfed pen-blwydd Techniquest mewn digwyddiad yn Chwarter 2; gwaith comisiwn i ddathlu Canolfan Astudiaethau Islam yn y Deyrnas Unedig ym mis Medi; gwaith comisiwn Menywod Cronig i ymddangos mewn digwyddiad amlwg yn Chwarter 4; ac mae rhagor o gynlluniau ar y gweill. | |
| Sicrhau bod 40 o ddarnau yn y wasg a’r cyfryngau (print, ar-lein a darlledu) yn dathlu’r awduron sydd ar y rhestr fer ac awduron buddugol Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2025. | **Ar y trywydd iawn:** Ddiwedd mis Mehefin, roedd 24 o ddarnau wedi rhoi sylw i’r seremoni, gan ddisgwyl llawer mwy pan fyddai’n cael ei chynnal. | |
| 160 o awduron unigol wedi eu cefnogi trwy Gronfa Ysbrydoli Cymunedau i weithio mewn cymunedau ar draws Cymru. | **Ar y trywydd iawn:** 53 o awduron unigol wedi cael eu hariannu rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025 | |

# Arts Council Wales 25/26 Targets: Transform

Canlyniadau:

- Cynnydd mewn synnwyr mewnol ac allanol o’r hyn mae Llenyddiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni ac, yn hanfodol, beth nag ydy’n cyflawni, trwy gynnydd mewn cydweithio gyda sefydliadau eraill a neges syml cyd cysylltiedig gan y sector cyfan.
- Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd.
- Mae rhwydwaith o hwyluswyr llenyddol yn cael ei ffurfio a’i hehangu er mwyn dod â llenyddiaeth er lles i gymunedau.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| O leiaf 3 digwyddiad sy’n rhan o’n rhaglenni datblygu awduron yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Llyfrau Cymru a chyhoeddwyr llyfrau/cylchgronau er mwyn egluro’r broses gyhoeddi i egin awduron. | **Ar y trywydd iawn:** Y gwaith rhaglennu wrthi’n mynd rhagddo. | |
| Erbyn Mawrth 2026, arwain 5 cyfarfod i drafod materion sector gyda phartneriaid llenyddol ar draws Cymru. | **Ar y trywydd iawn:** Mae un cyfarfod ffurfiol wedi’i gynnal, gan arwain trafodaethau’r Cwmnïau Cenedlaethol â Chyngor Celfyddydau Cymru am y strategaeth. Mae cyfarfodydd eraill wedi cael eu cynnal yn anffurfiol, ynghyd â gwaith wedi’i wneud gyda phartneriaid (fel y British Council, y Cyngor Lyfrau, Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau), ond bydd rhagor o drafodaethau ffurfiol yn cael eu cynnal wrth adolygu’r strategaeth yn yr hydref. | |
| Cwblhau gwaith gyda sefydliadau llenyddol i fapio’r sector, a bydd modd rhannu hyn ar wefannau’r sefydliadau a’i ddefnyddio i hyfforddi staff. Y fframwaith wedi’i gwblhau gan y sefydliadau erbyn mis Mehefin 2025, a sesiwn hyfforddi fewnol i’w chynnal erbyn mis Awst 2025. | **Oedi yn y broses**: Mae sefydliadau’n araf yn ymateb i’r holiadur (gan gynnwys dim byd gan Gyngor Celfyddydau Cymru). Mae’r aelod o staff sy’n gyfrifol wedi ceisio dilyn trywydd gwahanol ac yn canolbwyntio ar gyfarfodydd llafar yn lle hynny. | |
| Rheolwyr llinell yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu gallu i ddelio â sgyrsiau anodd gyda chydweithwyr, o ganlyniad i hyfforddiant. 100% ar 4 neu 5 yn arolwg y staff. | **Ar y trywydd iawn:** Mae 2 reolwr yn cael hyfforddiant am sut i ddelio â sgyrsiau anodd. Mae’r adborth anffurfiol wedi awgrymu nad oedd yr hyfforddiant o ansawdd da, ond bod cael amser i feddwl am y materion hyn wedi gwneud y staff yn fwy cyfforddus. Bydd arolwg y staff yn cael ei gynnal yn yr hydref. | |
| Ein tîm yn dweud eu bod nhw’n cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi gan Lenyddiaeth Cymru fel cyflogwr. Sicrhau bod 100% o staff yn dal i roi 5/5 neu 4/5 wrth ymateb i gwestiwn yn arolwg y staff am deimlo’u bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi. | **Ar y trywydd iawn:** Bydd arolwg y staff yn cael ei gynnal yn yr hydref. Yn y cyfamser, ni fu unrhyw achosion o gwynion gan staff am y cymorth maen nhw’n ei gael na chan staff oedd yn teimlo nad oedden nhw’n cael eu gwerthfawrogi. | |

# Arts Council Wales 25/26 Targets: Transform

Canlyniadau:

- Cynnydd mewn synnwyr mewnol ac allanol o'r hyn mae Llenyddiaeth Cymru yn bodoli i gyflawni ac, yn hanfodol, beth nag ydy'n cyflawni, trwy gynnydd mewn cydweithio gyda sefydliadau eraill a neges syml cyd cysylltiedig gan y sector cyfan.
- Diwylliant sefydliadol sydd yn ymgorffori gwerthoedd sydd wedi eu hamlinellu yn Ein Haddewid ac sydd yn arwain y sector fel model o gyflogwr effeithiol a moesegol o staff a gweithwyr llawrydd.
- Mae rhwydwaith o hwyluswyr llenyddol yn cael ei ffurfio a'i hehangu er mwyn dod â llenyddiaeth er lles i gymunedau.

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2026 | Cynnydd y chwarter yma | Ar y trywydd iawn? |
|---|---|---|
| Cyflawni diwrnod cwrdd i ffwrdd ar gyfer staff ac ymddiriedolwyr yn Hydref 2025 sydd yn cynnig hyfforddiant, cynnydd mewn dealltwriaeth o strategaeth LlC, a meithrin ethos o gydweithio rhwng y ddau grŵp. Diwrnod cwrdd i ffwrdd i staff ac ymddiriedolwyr i'w gynnal ym mis Tachwedd 2025, gyda thrafodaeth am roi ein gwerthoedd ar waith – canfod camau gweithredu pendant i bawb allu gwreiddio'r rhain yn rhan o'u swyddi. | **Ar y trywydd iawn:** I'r dyddiadur | |
| 9 mis ar ôl y prosiect, hwyluswyr sydd wedi cymryd rhan yng nghwrs Sgwennu'n Well (y grŵp cyntaf yn 24/25) yn dweud eu bod wedi defnyddio'r sgiliau a gafodd eu meithrin yn ystod y rhaglen mewn prosiectau eraill. | **Ar y trywydd iawn:** I fod i'w gynnal ym mis Tachwedd/Rhagfyr | |
| Y prosiect Menywod Cronig yn dod â 14 o fenywod at ei gilydd i edrych ar ysgrifennu am iechyd, ac er budd iechyd. Yn dilyn cyhoeddi'r antholeg, bydd y grŵp yn dal i weithio fel rhwydwaith. Byddan nhw'n cael cynnig cyfleoedd i ddatblygu'u sgiliau fel hwyluswyr ac i ddefnyddio'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu i rymuso pobl eraill mewn cymunedau ledled Cymru. O leiaf 10 o'r grŵp o 14 yn cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu pellach i fireinio'u sgiliau fel ymarferwyr creadigol erbyn diwedd mis Mawrth 2026. | **Ar y trywydd iawn:** Mae 14 o feirdd wedi cymryd rhan mewn 2 weithdy rhithwir a edrychai ar ysgrifennu am iechyd ac er lles iechyd. Byddan nhw'n cwrdd eto yn Chwarter 3 er mwyn ceisio parhau â'r rhwydwaith. Mae'r gwaith rhaglennu'n mynd rhagddo ar gyfer rhoi mwy o hyfforddiant yn y maes hwyluso. | |
| Hwyluswyr sy'n cymryd rhan yn Sgwennu'n Well (grŵp 2) yn dweud bod y cymorth personol i ddatblygu eu prosiectau llên er lles yn eu cymunedau o'u dewis yn ddefnyddiol, a bod ganddyn nhw fwy o sgiliau a hyder. 6 o hwyluswyr yn dweud bod ganddyn nhw fwy o sgiliau a hyder ar ôl cael cymorth personol. | **Ar y trywydd iawn:** Nid yw'r gwerthusiad hwn wedi dechrau eto. | |

# Gwersi i’w Dysgu: Gweithgaredd a Gweithredol

| Activity | Gwersi i’w Dysgu:<br>1 Ebrill – 30 Mehefin 2025 | Argymhellion/ Gweithrediadau ar gyfer y dyfodol |
|---|---|---|
| Recriwtio | Golygodd y cynllun i warantu cyfweliad i ni gael ein llethu wrth ddelio â’r swydd Cefnogaeth Creadigol. | A hithau’n swydd lefel mynediad, roedden ni’n awyddus i’r gofynion a oedd ymwneud ag ‘addasrwydd i’r swydd’ fod mor eang â phosibl, er mwyn annog ceisiadau gan bobl a oedd â llai o brofiad uniongyrchol neu a fyddai wedi dilyn llwybrau gwahanol i’r swydd hon. Yn y dyfodol, yn enwedig wrth recriwtio i swyddi lefel mynediad lle nad yw’r Gymraeg yn hanfodol, byddwn ni’n fwy penodol wrth bennu’r ‘addasrwydd i’r swydd’. Er enghraifft, yn y swydd hon, dylen ni fod wedi dweud bod angen gwybodaeth am lenyddiaeth Cymru, yn hytrach na ‘diddordeb mewn llenyddiaeth’.<br>At hynny, cawson ni nifer o geisiadau o’r tu allan i Gymru. Er nad ydyn ni eisiau diystyru’n llwyr weithwyr sy’n byw y tu allan i Gymru ar hyn o bryd, byddwn ni’n ei gwneud hi’n fwy eglur ein bod angen i bobl ddod i’r swyddfa yn rheolaidd. |
| Partneriaethau | Problemau gyda ffyrdd partneriaid o weithio/cynlluniau’n newid, a’r rheini yn yr achosion gwaethaf yn arwain at lai o effaith ac at anallu i gyrraedd targedau cyllido. | Ar ddau achlysur, mae partneriaid wedi newid eu cynlluniau, a hynny wedi golygu nad ydyn ni wedi cyrraedd y gymuned a fwriadwyd, neu nad ydyn ni wedi cael digon o bobl yn cymryd rhan yn ein rhaglenni. Bydd sesiwn atgoffa i’r holl staff am ein rhestr wirio ar gyfer partneriaid yn cael ei chynnal ym mis Awst 2025, a bydd honno’n trafod sut i osod disgwyliadau a chontractio. Fel yn achos contractau artistiaid, bydd holl gytundebau partneriaid yn cael eu llywio drwy Claire i sicrhau eu bod yn gyson a bod swyddog ar lefel uwch yn cadw golwg arnyn nhw. |
| Prosiectau peilot, e.e. Sgwadiau Sgwennu Rhanbarthol | Dylai prosiectau peilot gynnwys elfen werthuso ddefnyddiol, er mwyn bwydo i’r cam datblygu nesaf. | Mae angen gwell fframweithiau cynllunio a gwerthuso cyn i brosiectau peilot ddechrau, fel bod pob aelod o staff sy’n rhan o’r gwaith yn deall y dylen ni ddysgu cymaint â phosibl wrth gynnal y prosiectau hyn. |